Ysgol Penrhyn-coch

Daeth Rhagfyr ar ein gwarthaf unwaith eto ac yn ei sgîl lu o weithgareddau diwedd blwyddyn. Bu'n gyfnod prysur ym myd chwaraeon gyda'r tîm hoci a'r timau pêl-droed yn chwarae'n gyson yng nghyngrair y mini minor. Ni chaed llwyddiant bob tro ond yna rhaid dysgu colli yn ogystal ag ennill ac y mae'r ymdrech a'r brwdfrydedd ymysg y chwaraewyr ifanc i'w ganmol. Cafodd y tîm pêl-rwyd eu cyfle hefyd a'r un yw'r ganmoliaeth iddynt hwythau.

Bu'r plant iau yn cyfarfod bob nos Lun yng nghlwb yr Urdd. Pleser oedd croesawu Dr David Jenkins i'n plith a chael sgwrs am bentref Penrhyn-coch ddoe a heddiw. Cafwyd llawer o wybodaeth ganddo a nifer o ffeithiau hynod o ddiddorol. Erbyn hyn sylweddolwn fod y pentref wedi newid a thyfu'n aruthrol mewn cyfnod cymharol fyr. Yr un oedd ein croeso i Mr William Griffiths, Comins-coch. Un o'i ddiddordebau ef yw cadw gwenyn a gwneud mêl a chafwyd orig ddifyr dros ben yn ei gwmni. Roedd ganddo bob math o bethau i'w dangos, o wisg gwenynwr i'r offer a ddefnyddir wrth y gwaith. Trueni na fuasem wedi medru cael rhagor o amser yn ei gwmni. Hwyrach y daw'r cyfle eto yn fuan. Ein diolch diffuant i'r ddau ohonoch. Noson o ganu fu'r cyfarfod olaf un a chyfle i ddwyn i gof rai o'r hen garolau traddodiadol Gymreig. Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu yng nghwis yr Urdd yn Rhydypennau a gwneud eu gwaith yn ganmoladwy iawn.

Croesawn ddau ddisgybl newydd i'n plith, Glen a Craig Colgate, sydd wedi ymgartrefu'n hapus yn ein cwmni. Cawsom groesawu Miss Lisa Griffiths o Goleg Addysg Bellach Llanbadarn yn ystod y tymor. Mae hi â'i bryd ar fod yn gynorthwywraig feithrin ac yn cael profiad perthnasol gyda'r babanod. Bu Miss Nia Mererid Evans o Goleg y Brifysgol Aberystwyth yma hefyd am bythefnos o arsylwi. Bydd yn dychwelyd atom y tymor nesaf i wneud ei hymarfer dysgu.